



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1067 (Cy. 106)

2014 No. 1067 (W. 106)

ADNODDAU DŴR, CYMRU

WATER RESOURCES, WALES

Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi
(Diwygio) (Cymru) 2014

The Bathing Water (Amendment)
(Wales) Regulations 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn amrywio Rhan 2 o Atodlen 2 (dŵr wyneb yng Nghymru) i Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau"), sy'n rhestru'r dyfroedd a nodwyd gan Weinidogion Cymru fel dyfroedd ymdrochi yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Llyn Padarn a Dwyrain y Rhyl at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid oes unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y rheoliadau diwygiedig hyn gan nad oes unrhyw newid i bolisïau, nac unrhyw effaith ar fusnesau neu'r sector gwirfoddol yn cael ei rhagweld.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which apply in relation to Wales, vary Part 2 of Schedule 2 (surface waters in Wales) to the Bathing Water Regulations 2013 ("the Regulations"), which lists the waters identified by the Welsh Ministers as bathing waters in Wales.

Regulation 2 of these Regulations adds Llyn Padarn and Rhyl East to the list of identified bathing waters in the Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. No Regulatory Impact Assessment has been produced for these amended regulations as there is no change to policy, or impact on business or the voluntary sectors foreseen.

2014 Rhif 1067 (Cy. 106)

2014 No. 1067 (W. 106)

ADNODDAU DŴR, CYMRU

WATER RESOURCES, WALES

**Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi
(Diwygio) (Cymru) 2014**

**The Bathing Water (Amendment)
(Wales) Regulations 2014**

Gwnaed 21 Ebrill 2014

Made 21 April 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 24 Ebrill 2014

Laid before the National Assembly for Wales
24 April 2014

Yn dod i rym 15 Mai 2014

Coming into force 15 May 2014

Dynodir Gweinidogion Cymru mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2).

The Welsh Ministers are designated in relation to measures relating to water resources (1) for the purposes of section 2(2) of the European Community Act 1972 (2).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno o'r Ddeddf honno.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by that section of that Act.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dewis ymgynghori mewn perthynas â rheoliad 6 o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ("y Rheoliadau") (3).

The Welsh Ministers have chosen to consult in relation to regulation 6 of the Bathing Water Regulations 2013 ("the Regulations") (3).

Enwi, cychwyn a rhychwantu

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) 2014.

1.—(1) The title of these Regulations is the Bathing Water (Amendment) (Wales) Regulations 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mai 2014.

(2) These Regulations come into force on 15 May 2014.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) These Regulations apply to Wales.

(1) Gweler O.S. 2003/2901 ar gyfer y dynodiad a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 28 o Atodlen 11 iddi, mae'r dynodiad hwnnw bellach wedi ei roi i Weinidogion Cymru.

(2) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a chan Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7).

(3) O.S. 2013/1675.

(1) See S.I. 2003/2901 for the designation conferred on the National Assembly for Wales. By virtue of sections 59 and 162 of, and paragraph 28 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), that designation is now conferred on the Welsh Ministers.

(2) 1972 c. 68; section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51) and by Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7).

(3) S.I 2013/1675.

Amrywio Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

2.—(1) Mae'r Rheoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 2 (dŵr wyneb yng Nghymru)—

- (a) ar ôl “Llanrhystud”, mewnosoder “Llyn Padarn”; a
- (b) ar ôl “Rhyl”, mewnosoder “Rhyl East”.

Variation of Part 2 of Schedule 2 to the Bathing Water Regulations 2013

2.—(1) The Regulations are amended as follows.

(2) In Part 2 of Schedule 2 (surface waters in Wales)—

- (a) after “Llanrhystud”, insert “Llyn Padarn”; and
- (b) after “Rhyl”, insert “Rhyl East”.

Alun Davies

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru.

21 Ebrill 2014

© 2014 Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Natural Resources and Food, one of the Welsh Ministers.

21 April 2014

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1067 (Cy. 106)

2014 No. 1067 (W. 106)

ADNODDAU DŴR, CYMRU

WATER RESOURCES, WALES

Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi
(Diwygio) (Cymru) 2014

The Bathing Water (Amendment)
(Wales) Regulations 2014

£4.25

W1946/05/14

ON

ISBN 978-0-348-10941-2



9 780348 109412